

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 27 Ionawr 2026
Tabled on 27 January 2026

Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill

Joel James

67

Section 3, page 2, after line 35, insert –

‘() after subsection (8), insert –

- “(9) When assessing the suitability of any accommodation offered to an applicant under this Chapter, the local housing authority must have regard to the assessment under this section.
- (10) A reviewing officer considering the suitability of accommodation in a review pursuant to section 85(2)(1) must have regard to the assessment under this section, and must take into account any deficiencies in any assessment under this section.”’.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() ar ôl is-adran (8), mewnosoder –

- “(9) Wrth asesu addasrwydd unrhyw lety a gynigir i geisydd o dan y Bennod hon, rhaid i’r awdurdod tai lleol roi sylw i’r asesiad o dan yr adran hon.
- (10) Rhaid i swyddog adolygu sy’n ystyried addasrwydd llety mewn adolygiad yn unol ag adran 85(2)(1) roi sylw i’r asesiad o dan yr adran hon, a rhaid iddo ystyried unrhyw ddiffygion mewn unrhyw asesiad o dan yr adran hon.”’.

Joel James

68

Section 14, page 16, after line 18, insert –

‘() For subsection (7), substitute –

- “() Where an applicant’s application under this Part is being referred to a local housing authority in England, the authority must notify the applicant –
- (a) that unless section 82(1C) applies, the duty owed to the applicant by authority B will be section 189B(2) of the Housing Act 1996 (the 1996 Act”),
 - (b) with an explanation of the duty at section 189B(2) of the 1996 Act,
 - (c) that it will be for authority B to make a determination as to what other duties may be owed, if any, under Part 7 of the 1996 Act, and
 - (d) that the applicant will have the right to request a review of certain decisions made by authority B, and that the applicant will be informed of those rights to request a review when those decisions are notified to them.”.

Adran 14, tudalen 16, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

‘() Yn lle is-adran (7), rhodder –

- “() Pan fo cais ceisydd o dan y Rhan hon yn cael ei atgyfeirio at awdurdod tai lleol yn Lloegr, rhaid i’r awdurdod hysbysu’r ceisydd –
- (a) oni bai bod adran 82(1C) yn gymwys, mai’r ddyletswydd a fydd ar awdurdod B i’r ceisydd fydd adran 189B(2) o Ddeddf Tai 1996 (“Deddf 1996”),
 - (b) gydag esboniad am y ddyletswydd yn adran 189B(2) o Ddeddf 1996,
 - (c) mai awdurdod B fydd yn gwneud dyfarniad o ran pa ddyletswyddau eraill a all fod yn ddyledus, os oes rhai, o dan Ran 7 o Ddeddf 1996, a
 - (d) y bydd gan y ceisydd yr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniadau penodol a wneir gan awdurdod B, ac y bydd y ceisydd yn cael gwybod am yr hawliau hynny i ofyn am adolygiad pan gaiff ei hysbysu am y penderfyniadau hynny.”.

Joel James

69

Section 16, page 17, leave out line 29.

Adran 16, tudalen 17, hepgorer llinell 31.

Joel James

70

Section 17, page 18, after line 34, insert –

- ‘() In relation to subsection (1)(a)(iii), where the landlord is a registered social landlord which is not a local authority, the local authority must have regard to their view when making a consideration.’.

Adran 17, tudalen 18, ar ôl llinell 40, mewnosoder –

- '() Mewn perthynas ag is-adran (1)(a)(iii), pan fo'r landlord yn landlord cymdeithasol cofrestredig nad yw'n awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'w farn wrth wneud ystyriaeth.'

Joel James

71

Section 19, page 21, after line 26, insert –

- '() the behaviour in this section results in the authority not being able to exercise their functions under this Chapter safely, and'.

Adran 19, tudalen 21, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

- '() bod yr ymddygiad yn yr adran hon yn golygu na all yr awdurdod arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon yn ddiogel, a'.

Joel James

72

Section 19, page 22, line 6, after 'applicant', insert 'and the behaviour in this section results in the authority not being able to exercise their functions under this Chapter safely'.

Adran 19, tudalen 22, llinell 6, ar ôl 'ceisydd', mewnosoder ' a bod yr ymddygiad yn yr adran hon yn golygu na all yr awdurdod arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon yn ddiogel'.

Joel James

73

Section 19, page 22, line 8, after 'apply', insert ' including but not limited to that the applicant or someone in their household is a victim of abuse, or that the property damage is connected to abuse'.

Adran 19, tudalen 22, llinell 8, ar ôl 'gymwys', mewnosoder ' , gan gynnwys bod y ceisydd neu rywun yn ei aelwyd yn ddioddefwr camdriniaeth, neu fod y difrod i'r eiddo yn gysylltiedig â chamdriniaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny'.

Joel James

74

Section 20, page 23, line 31, after 'accommodation', insert 'and cannot amount to any available defence to a possession claim made by a specified person'.

Adran 20, tudalen 23, llinell 29, ar ôl 'lety', mewnosoder 'ac ni all fod yn gyfystyr ag unrhyw amddiffyniad sydd ar gael yn erbyn hawliad meddiant a wneir gan berson penodedig'.

Joel James

75

Section 32, page 33, after line 9, insert –

- '() The duty in subsection (2) applies only in relation to housing accommodation that would be available for an allocation of social housing under section 160B of the Housing Act 1996.'

Adran 32, tudalen 33, ar ôl llinell 9, mewnosoder –



() Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys ond mewn perthynas â llety tai a fyddai ar gael i ddyrannu tai cymdeithasol o dan adran 160B o Ddeddf tai 1996.'

Joel James

76

Section 32, page 33, line 29, after 'guidance', insert 'on information sharing and partnership working, and particularly'.

Adran 32, tudalen 33, llinell 27, ar ôl 'canllawiau', mewnosoder 'ar rannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth, ac yn benodol'.

Joel James

77

Section 32, page 33, line 33, after 'guidance,', insert 'which must be in place prior to the enactment of this section,'.

Adran 32, tudalen 33, llinell 31, ar ôl 'fath,', mewnosoder 'y mae rhaid iddynt fod ar waith cyn deddfu'r adran hon,'.

Joel James

78

Section 32, page 34, line 1, after 'landlord', insert 'and local housing authorities'.

Adran 32, tudalen 34, llinell 1, ar ôl 'cymdeithasol', mewnosoder 'ac awdurdodau tai lleol'.

Joel James

79

Section 37, page 37, line 20, after 'not', insert 'and does not apply to an allocation of housing accommodation by a registered social landlord or a private registered provider of social housing to a person who is already a tenant under a secure contract or an introductory standard contract unless the allocation involves a transfer of housing accommodation for that person and is made on his application'.

Adran 37, tudalen 37, llinell 21, ar ôl 'not', mewnosoder 'and does not apply to an allocation of housing accommodation by a registered social landlord or a private registered provider of social housing to a person who is already a tenant under a secure contract or an introductory standard contract unless the allocation involves a transfer of housing accommodation for that person and is made on his application'.

Sian Gwenllian

80

Section 29, page 31, after line 2, insert –

() After section 59(2) of the 2014 Act, insert –

“() In determining whether accommodation is suitable for a person, a local housing authority must not consider accommodation which contains a category 1 hazard as being suitable.”

() After section 59(3) of the 2014 Act, insert –

“() “Category 1 hazard” “perylg categori 1” has the meaning given by section 2 of the Housing Act 2004.”.

Adran 29, tudalen 31, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

‘() Ar ôl adran 59(2) o Ddeddf 2014, mewnosoder –

“() Wrth benderfynu a yw llety’n addas ar gyfer person, ni chaiff awdurdod tai lleol ystyried bod llety sy’n cynnwys perylg categori 1 yn addas.”

() Ar ôl adran 59(3) o Ddeddf 2014, mewnosoder –

“() Mae i “perylg categori 1” yr ystyr a roddir i “category 1 hazard” gan adran 2 o Ddeddf Tai 2004.”.

Sian Gwenllian

81

Section 37, page 38, line 2, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 37, tudalen 38, llinell 2, hepgorer ‘may’ a mewnosoder ‘must’.

Sian Gwenllian

82

Section 37, page 38, after line 3, insert –

‘() The regulations must provide for –

- (a) a person with an entry in the register to have access to information relating to the entry and the allocation of housing under this Part;
- (b) general information relating to registers and their operation in the allocation of housing in each local housing authority area to be published.’.

Adran 37, tudalen 38, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

‘() The regulations must provide for –

- (a) a person with an entry in the register to have access to information relating to the entry and the allocation of housing under this Part;
- (b) general information relating to registers and their operation in the allocation of housing in each local housing authority area to be published.’.

Sian Gwenllian

83

Section 37, page 38, after line 14, insert –

‘() about the creation, collection, collation and publication of information relating to the register or its operation in the allocation of housing.’.

Adran 37, tudalen 38, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

Sian Gwenllian

89

Page 39, after line 8, insert a new section –

[] Guidance to local housing authorities on rent guarantees

- () The Welsh Ministers must give guidance to local housing authorities about making arrangements under which a local housing authority guarantees payment of rent by an occupier of housing accommodation in accordance with an agreement of any kind.
- () Before giving guidance under this section, the Welsh Ministers must consult local housing authorities and any other persons they consider appropriate.
- () The Welsh Ministers may revise or replace guidance under this section by giving further guidance.
- () The Welsh Ministers must publish guidance under this section.
- () In this section, “local housing authority” means the council of a county or county borough in Wales.’.

Tudalen 39, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

[] Canllawiau i awdurdodau tai lleol ar warantau rhent

- () Rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau tai lleol ynghylch gwneud trefniadau y mae awdurdod tai lleol, o dan y trefniadau hynny, yn gwarantu y telir rhent gan feddiannydd llety tai yn unol â chytundeb o unrhyw fath.
- () Cyn rhoi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau tai lleol ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- () Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu ddisodli canllawiau o dan yr adran hon drwy roi canllawiau pellach.
- () Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o dan yr adran hon.
- () Yn yr adran hon, ystyr “awdurdod tai lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.’.

Sian Gwenllian

90

Section 38, page 39, line 13, leave out ‘, and

- (b) prepare a report of the review’.

Adran 38, tudalen 39, llinell 13, hepgorer ‘, a

- (b) llunio adroddiad o’r adolygiad’.

Sian Gwenllian

91

Section 38, page 39, after line 17, insert –

- ‘() The Welsh Ministers must publish a report of their review of the operation and effect of section 94A of the 2014 Act and lay a copy of it before Senedd Cymru before the end of the period of 2 years beginning with the day on which section 20 comes fully into force.’.

Adran 38, tudalen 39, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

- () Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o’u hadolygiad o weithrediad ac effaith adran 94A o Ddeddf 2014 a gosod copi ohono gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw adran 20 i rym yn llawn.’.

Sian Gwenllian

92

Section 38, page 39, line 18, leave out ‘the report required by subsection (1)(b)’ and insert ‘a report of their review of the operation and effect of the other changes made by this Act’.

Adran 38, tudalen 39, llinell 19, hepgorer ‘gyhoeddi’r adroddiad sy’n ofynnol gan is-adran (1)(b)’ a mewnosoder ‘gyhoeddi’r adroddiad o’u hadolygiad o weithrediad ac effaith y newidiadau eraill a wneir gan y Ddeddf hon’.

Sian Gwenllian

93

Section 38, page 39, line 21, leave out ‘discharge the duty in subsection (1) at a time when the Welsh Ministers consider this Act’ and insert ‘review the operation and effect of a change made by this Act at a time when the Welsh Ministers consider the provision making the change’.

Adran 38, tudalen 39, llinell 22, hepgorer ‘gyflawni’r ddyletswydd yn is-adran (1) ar adeg pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y Ddeddf hon’ a mewnosoder ‘adolygu gweithrediad ac effaith newid a wneir gan y Ddeddf hon ar adeg pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y ddarpariaeth sy’n gwneud y newid’.

Sian Gwenllian

94

Section 42, page 40, after line 21, insert –

- () An order under subsection (2) may not appoint a day for the coming into force of section 35 that is earlier than the day appointed for the coming into force of section 10.’.

Adran 42, tudalen 40, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- () Ni chaiff gorchymyn o dan is-adran (2) bennu diwrnod ar gyfer dod ag adran 35 i rym sy’n gynharach na’r diwrnod a bennir ar gyfer dod ag adran 10 i rym.’.